

**GWEITHDY SEFYDLU FFORWM A DECHRAU PROSIECT  
LIFE CYMRU**

**ADRODDIAD O'R GWEITHDY**

**GWEITHDY A DREFNWDYD GAN JNCC  
AR RAN LLYWODRAETH CYMRU  
AC MEWN CYDWEITHREDIAD AG ADNODDAU NATURIOL  
CYMRU**

**25 TACHWEDD 2015, NEUADD Y DDINAS, CAERDYDD**

## Cynnwys

<b>Crynodeb o'r adroddiad.....</b>	<b>3</b>
<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>5</b>
<b>Pwyntiau Allweddol .....</b>	<b>6</b>
<b>Atodiad 1. Adroddiadau o'r Grwpiau Trafod .....</b>	<b>7</b>
Sesiwn y bore: Fforwm LIFE Cymru: .....	7
Grŵp 1: Prosiectau cyfredol LIFE – rhai sydd ar waith, yn cael eu datblygu a bidiau posibl ar gyfer LIFE yn y dyfodol .....	8
Grŵp 2: Rhwystrau i bidiau LIFE o Gymru a sut i'w goresgyn .....	10
1. Y rhwystrau .....	10
2. Ffyrdd posibl i oresgyn y rhwystrau .....	11
Grŵp 3: Cwmpas ac aelodaeth Fforwm LIFE Cymru .....	12
Sesiwn y prynhawn: Gweithdy Dechrau Prosiectau – â sylw penodol i fawndir ...	14
Grŵp 1: Camau allweddol ar gyfer prosiectau mawndir .....	14
Grŵp 2: Rhanddeiliaid a phartneriaid posibl .....	15
Grŵp 3: Posibiliadau o ran cyd-ariannu .....	16
<b>Atodiad 2. Y cyflwyniadau .....</b>	<b>16</b>

## Crynodeb o'r adroddiad

Bu i Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad ag Adnoddau Naturiol Cymru gynnal gweithdy undydd i drafod ceisio am arian o gronfa LIFE yr UE ar gyfer prosiectau yng Nghymru. Trefnwyd y gweithdy ar y 25ain o Dachwedd 2016 yn Neuadd y Ddinas Caerdydd gan y JNCC. Hwn oedd y gweithdy cyntaf mewn cyfres a drefnwyd ar gyfer rhanddeiliaid a rhai â diddordeb yn y maes, a'r bwriad oedd i hyrwyddo gwybodaeth ynghylch grantiau LIFE a dechrau'r proses o lunio bidiau ar gyfer prosiectau Natur a Bioamrywiaeth LIFE yng Nghymru.

Amcanion y gweithdy:

- Sefydlu Fforwm LIFE Cymru i ganolbwyntio ar faterion byd Natur a Bioamrywiaeth gyda'r amcan o sicrhau mwy o arian LIFE i Gymru
- Datblygu bidiau Natur a Bioamrywiaeth LIFE gyda sylw penodol i fawndir

Daeth nifer o wahanol rhanddeiliaid, partneriaid a rhai â diddordeb i'r gweithdy oedd â'r bwriad i sicrhau gwell trefn strategol ar geisiadau am arian. Cafwyd sawl cyflwyniad a thrafodaeth yn amlygu ac yn esbonio'r proses o wneud cais LIFE, deilliannau Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru, a Fframwaith Blaenoriaethau Gweithredu Cymru. Bu'r drafodaeth yn rhoi sylw hefyd i adnabod y rhwystrau i bidiau LIFE o Gymru a ffyrdd i'w goresgyn.

Trafodwyd a chytunwyd ar gwmpas ac aelodaeth Fforwm LIFE Cymru. Cytunwyd yn y gweithdy ar y cwmpas a'r nodau canlynol:

- Bod y Fforwm yn hwyluso rhannu gwybodaeth am bidiau posibl, er mwyn datblygu partneriaethau ac osgoi dyblygu gwaith yn llunio bidiau ar gyfer prosiectau tebyg
- yn canolbwyntio ar yr ymarferol, gan fod yn fodd i adnabod anghenion a ffynonellau arian cyfatebol (*match funding*)
- yn blaenori bidiau ac yn datblygu rhestr flaenoriaeth ar eu cyfer, ond ar yr un pryd i fod ag agwedd hyblyg o ran y blaenori er mwyn caniatáu a chefnogi syniadau *ad hoc*
- yn dod i gytundeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen wrth drafod blaenoriaethu prosiectau gyda chyrrff ariannu
- yn cyflwyno bidiau mewn partneriaeth â chyrrff o Loegr a thu hwnt lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ond yn sicrhau bod hynny'n cydfynd â fframwaith bolisiau Cymru
- yn cefnogi rhaglen waith y JNCC drwy edrych i'r dyfodol ac adnabod anghenion ar sail gwybodaeth gyllido fanwl, i gynnwys cyrrff, mudiadau ac unigolion allweddol eraill lle bo'u hangen, i gynghori Llysgenhadon Ariannu UE Llywodraeth Cymru, ac i ddatblygu perthynas â Swyddfa Arian Ewrop Cymru a Swyddfa Cymru ym Mrwsel.

O ran aelodaeth y Fforwm, roedd y cynrychiolwyr yn gyffredinol am ei weld yn grŵp oedd mor gynhwysol â phosibl, yn ychwanegu at werth y grwpiau sydd eisoes yn bod yng Nghymru, ac yn canolbwyntio ar dasgau a gweithredu. Gan gadw hynny mewn cof, roedd teimlad bod angen yn gyffredinol i gyfyngu aelodaeth o'r grŵp i'r rhai hynny sydd, neu a all fod, â rhan weithredol mewn bid, ond ar yr un pryd bod angen cadw cysylltiadau cryf â grwpiau cyllido a pholisi.

Cytunwyd hefyd bod aelodau'r Fforwm i gyfarfod â'i gilydd wyneb yn wyneb dair gwaith y flwyddyn. Roedd teimlad bod angen i'r grŵp fod â chyfrifoldeb diamwys dros flaenoriaethu a llunio bidiau LIFE a bod adolygiad o lwyddiant y grŵp i'w gynnal ymhennu dwy flynedd. Trafodwyd hefyd ehangu cylch gorchwyl y grŵp y tu hwnt i faterion LIFE a'i wneud yn grŵp ariannu ar gyfer pob agwedd o'r sector bioamrywiaeth. Yn hyn o beth roedd teimlad cyffredinol bod angen canolbwyntio ar LIFE am y tro ac i gadw'r posibilrwydd o ehangu'r cylch gorchwyl fel mater i'w drafod eto.

Fe fu i sesiwn y prynhawn ganolbwyntio ar fawndir, a thynnu sylw at gyfleoedd i adfer mawndir ac at brosiectau LIFE. Cafodd tri phrosiect mawndir addawol eu hadnabod ar gyfer eu cyflwyno fel bidiau Natur a Bioamrywiaeth LIFE yn y dyfodol agos, yn cynnwys:

- prosiect rhosdiroedd gogledd Cymru'r RSPB ar gyfer y Berwyn, y Migneint a'r Elenydd
- prosiect Parc Cenedlaethol y Bannau ar gyfer adfer mawndir y Mynydd Du a Bannau Brycheiniog
- prosiect Adnoddau Naturiol Cymru ar gyfer cyforgorsydd Ceredigion

Bu i'r gweithdy adnabod 11 o fidiau posibl pellach ar gyfer arian Natur a Bioamrywiaeth LIFE. Mae'r rhain wedi eu rhestru'n fanwl yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Fe fu i bartneriaeth *Moors for the Future* roi cyflwyniad ar eu prosiect *MoorLIFE2020*, er mwyn dangos sut i greu prosiect llwyddiannus.

Bu trafodaethau'r prynhawn yn canolbwyntio'n bennaf ar elfennau allweddol prosiect mawndir, ar adnabod rhanddeiliaid a phartneriaid, ac ar adnabod ffynonellau arian cyfatebol. Fe nodwyd y canlynol fel elfennau allweddol prosiect mawndir: rheoli cynefin yn y fath fodd ag i gynyddu neilltuo carbon a gwella bioamrywiaeth (e.e. drwy blannu migwyn er mwyn annog ffurfiant mawn, rheoli prysgwydd, cael gwared ar goed conwydd, a chyflwyno mathau eraill o blanhigyn); rheoli dŵr er mwyn adfer natur hydrolegol yr ardal (drwy gau ffosydd a rheoli erydiad); codi ymwybyddiaeth y bobl leol o bwysigrwydd mawndiroedd yng nghyd-destun newid hinsawdd; addysgu beicwyr a cherddwyr fel eu bod yn ymwybodol o oblygiadau eu hamddena i'r mawndir.

Cafodd y canlynol eu hadnabod fel rhanddeiliaid a phartneriaid posibl: pob lefel o Lywodraeth (lleol, cenedlaethol ac Adnoddau Naturiol Cymru), cymunedau (Cynghorau Cymuned, tirfeddianwyr a rheolwyr tir, ffermwyr), busnesau a chwmnïau cyfleustodau (y CLA, cwmnïau dŵr, ffermydd gwynt), prifysgolion, cynghorau ymchwil a chyrrff NGO. Mae'r rhestr o gyd-arianwyr posibl yn ddigon tebyg, ond yn cynnwys hefyd y Loteri Treftadaeth, torf-gyllido, buddsoddwyr dyngarol, a chwmnïau yswiriant. Ymhlith y materion eraill a drafodwyd yn y gweithdy roedd yr angen i gydgordio'r gwaith â'r Côd Mawndir newydd, sef dull arloesol i alluogi busnesau i fuddsoddi mewn mawndir, gan ddwyn i ystyriaeth ei gyfraniad gwerthfawr ac amrywiol i les y ddyfnoliaeth. Mae rhestr fanwl o bartneriaid, rhanddeiliaid a darparwyr cyllid cyfatebol i'w chael yn yr Atodiad.

## Cyflwyniad

Bu i Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad ag Adnoddau Naturiol Cymru gynnal gweithdy undydd i drafod ariannu prosiectau yng Nghymru o gronfa LIFE yr UE ar y 25ain o Dachwedd 2016 yn Neuadd y Ddinas Caerdydd. Hwn oedd y gweithdy cyntaf mewn cyfres a drefnwyd i ddwyn rhanddeiliaid a rhai â diddordeb yn y maes at ei gilydd, a'r bwriad oedd i hyrwyddo gwybodaeth ynghylch grantiau LIFE a dechrau'r proses o lunio bidiau ar gyfer prosiectau Natur a Bioamrywiaeth LIFE yng Nghymru.

Amcanion y gweithdy:

- Sefydlu Fforwm LIFE Cymru i ganolbwyntio ar faterion byd Natur a Bioamrywiaeth gyda'r amcan o sicrhau mwy o arian LIFE i Gymru
- Datblygu bidiau Natur a Bioamrywiaeth LIFE gyda sylw penodol i fawndir

Y cadeirydd ar gyfer sesiwn y bore oedd y Dr. Simon Bilsborough (o Lywodraeth Cymru) ac ar gyfer y prynhawn y Dr. Jessa Battersby (o'r JNCC). Roedd yno 29 o gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Adnoddau Naturiol Cymru, Defra a gwahanol gyrff NGO. Cyflwynwyd a hwyluswyd y sesiynau trafod gan staff Adnoddau Naturiol Cymru a'r JNCC. Mae'r JNCC hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru drwy arwain ar brosiectau Natur a Bioamrywiaeth yng Nghymru o'u dechreuad hyd at eu cyflwyno fel bidiau LIFE, gan gynnig cymorth a chynghor drwy gydol y proses.

Bu i Lywodraeth Cymru agor y gweithdy drwy gyflwyno nodau Fforwm LIFE Cymru, yn cynnwys:

- Bod y Fforwm yn hwyluso rhannu gwybodaeth am bidiau posibl, er mwyn datblygu partneriaethau ac osgoi dyblygu gwaith yn llunio bidiau ar gyfer prosiectau tebyg
- yn canolbwyntio ar yr ymarferol, gan fod yn fodd i adnabod anghenion a ffynonellau arian cyfatebol (*match funding*)
- yn blaenori bidiau ac yn datblygu rhestr flaenoriaeth ar eu cyfer, ond ar yr un pryd i fod ag agwedd hyblyg o ran y blaenori er mwyn caniatáu a chefnogi syniadau *ad hoc*
- yn dod i gytundeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen wrth drafod blaenoriaethu prosiectau gyda chyrrff ariannu
- yn cyflwyno bidiau mewn partneriaeth â chyrrff o Loegr a thu hwnt lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ond yn sicrhau bod hynny'n cydfynd â fframwaith bolisiau Cymru
- yn cefnogi rhaglen waith y JNCC drwy edrych i'r dyfodol ac adnabod anghenion ar sail gwybodaeth gyllido fanwl, i gynnwys cyrrff, mudiadau ac unigolion allweddol eraill lle bo'u hangen, i gynghori Llysochadon Ariannu UE Llywodraeth Cymru, ac i ddatblygu perthynas â Swyddfa Arian Ewrop Cymru a Swyddfa Cymru ym Mrwsel.

Roedd yn ddiwrnod o gyflwyniadau a grwpiau trafod, gyda'r cyflwyniadau'n canolbwyntio ar broses gwneud cais am arian LIFE, deilliannau'r Rhaglen Natura 2000 yng Nghymru, Fframwaith Blaenoriaethau Gweithredu (*PAF*) Cymru a Chynlluniau Blaenori Gwelliannau Cymru (*PIP*), yn ogystal â'r proses blaenori yn Lloegr a bid llwyddiannus yno am arian LIFE, sef y prosiect *MoorLIFE2020*.

Bu i sesiwn y prynhawn ganolbwyntio ar fawndir a'r posibiliadau ar gyfer datblygu prosiectau Natur a Bioamrywiaeth mawndir LIFE yng Nghymru. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio'n bennaf ar elfennau allweddol prosiect mawndir, ar adnabod rhanddeiliaid a phartneriaid, ac ar adnabod ffynonellau arian cyfatebol.

Mae pob un o'r cyflwyniadau i'w gweld ar dudalennau gwefan [LIFEWales](#) ac mae adroddiadau o'r sesiynau trafod i'w cael yn yr Atodiad i'r adroddiad.

## Pwyntiau Allweddol

Dyma bwyntiau allweddol y Fforwm:

- Bod Fforwm LIFE Cymru wedi ei sefydlu a'i aelodau wedi cytuno i gyfarfod wyneb yn wyneb dair gwaith y flwyddyn.
- Bod yn Fforwm i hwyluso rhannu gwybodaeth sy'n helpu bobl i wybod am bidiau posibl a datblygu partneriaethau, ac i osgoi dyblygu bidiau ar gyfer prosiectau tebyg. Bod yn grŵp sy'n canolbwyntio ar dasgau a gweithredu, ac ag aelodaeth yn cynnwys yn bennaf rhai sydd, neu a all fod, â rhan weithredol mewn bid, tra'n cadw cysylltiadau cryf â grwpiau cyllido a pholisi.
- Bod y Fforwm yn chwilio am bartneriaid ac arian cyfatebol i ddatblygu bidiau yng Nghymru ynghyd â chysylltiadau posibl â grwpiau yn Lloegr.
- Ei fod yn hanfodol fod y partneriaid yn cael cymhwyso arian cyfatebol at gyfnod llawn unrhyw brosiect LIFE. Mae angen i Lywodraeth Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru gadarnhau eu safbwynt ar y mater hwn.
- Ei fod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru'n sefydlu un pwynt cyswllt ar gyfer materion Natur a Bioamrywiaeth LIFE.
- Bod pedwar ar ddeg (14) o bidiau posibl am arian Natur a Bioamrywiaeth LIFE wedi eu hadnabod ar gyfer eu cyflwyno yn 2016, yn cynnwys bidiau Deri'r Iwerydd (RSPB), Rhosdiroedd Gogledd Cymru (RSPB), a gwaith adfer Ardal Gadwraeth Arbennig afonydd Wysg a Gwy (Sefydliad y Gwy a'r Wysg).
- Bod tri prosiect mawndir addawol wedi eu hadnabod ar gyfer eu cyflwyno yn y dyfodol agos, sef bid Rhosdiroedd Gogledd Cymru (RSPB), bid i adfer y Mynydd Du (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a bid Cyforgorsydd Ceredigion (Adnoddau Naturiol Cymru).
- Bod prif gamau gweithredu prosiectau mawndir LIFE yn cynnwys: rheoli cynefin yn y fath fodd ag i gynyddu atafaelu carbon a gwella bioamrywiaeth; rheoli dŵr er mwyn adfer natur hydrolegol yr ardal; codi ymwybyddiaeth y bobl leol o bwysigrwydd mawndiroedd yng nghyd-destun newid hinsawdd; addysgu beicwyr a cherddwyr.

## **Atodiad 1. Adroddiadau'r Grwpiau Trafod**

### **Sesiwn y bore: Fforwm LIFE Cymru:**

Yn ystod sesiwn y bore fe fu i'r gweithdy rannu'n dri sesiwn trafod a hwyluswyd gan staff Adnoddau Naturiol Cymru a'r JNCC. Bu i'r tri grŵp drafod, yn eu tro, prosiectau cyfredol LIFE, prosiectau sy'n cael eu datblygu, bidiau posibl ar gyfer y dyfodol, y rhwystrau i bidiau LIFE a sut i'w goresgyn, a chwmpas ac aelodaeth Fforwm newydd Life Cymru.

## Grŵp 1: prosiectau cyfredol LIFE, prosiectau sy'n cael eu datblygu, a bidiau posibl ar gyfer y dyfodol

Hwylusydd: Colette Price (Adnoddau Naturiol Cymru). Cofnodwr: Jessica Magnus (JNCC)

Bu i'r grŵp adnabod 14 o bidiau Natur a Bioamrywiaeth LIFE oedd yn cael eu hystyried a'u datblygu ar hyn o bryd yng Nghymru (yn cynnwys y prosiectau mawndir sy'n cael eu datblygu gan Adnoddau Naturiol Cymru). Mae statws y prosiectau'n amrywio o bidiau parod i'w cyflwyno yn 2016 i syniadau sy'n cael eu hystyried a'u datblygu. Mae'r tabl isod yn cyflwyno crynodeb byr o'r gwahanol brosiectau a manylion y cyrff arweiniol, adeg cyflwyno'r bid a phroblemau posibl.

Enw'r prosiect	Corff arweiniol	Cyrff sy'n cefnogi	Cyfnod datblygiad y bid	Ariannu	Testun y prosiect	Llinyn LIFE	Problemau posibl a nodwyd
<b>Deri'r Iwerydd</b>	RSPB/Scottish National Heritage	Plantlife, RSPB, Adnoddau Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru	I'w gyflwyno yn 2016	Arian cyfatebol gan y Loteri Treftadaeth (angen ei gymeradwyo)	Rhywogaethau ymledol (rhododendron)	Bioamrywiaeth	Dim wedi eu codi
<b>Rhosdiroedd y gogledd – Y Berwyn, y Migneint a'r Elenydd</b>	RSPB	RSPB, Dŵr Severn Trent, YBGGC, Migneint, GWCT, ANC, Parc Cen Eryri, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	I'w gyflwyno yn 2016	Anhysbys	Adfer mawndir, rhywogaethau a chynefinoedd, partneriaethau a thirfeddianwyr	Natur	
<b>Rhywogaethau ymledol y Ddyfrdwy</b>	YBGGC	Parc Cen Eryri, Dŵr Cymru, Natural England, Asiantaeth yr Amgylchedd	Ansicr - LIFE? posibl ei ddatblygu'n prosiect LIFE	Anhysbys	Cael gwared ar rywogaethau ymledol o dalgylch y Ddyfrdwy (canclwm Japan, ffromlys chwarennog, crancod Tsieina)	Bioamrywiaeth	Cronfa gystadleuol ANC. Problem sicrhau arian cyfatebol oherwydd bod dyletswydd statudol i warchod cyflwr y Ddyfrdwy
<b>Adfer mawndir y Mynydd Du a Bannau Brycheiniog</b>	Parc Cen y Bannau (partneriaeth y Mynydd Du)	Dŵr Cymru, ANC, perchnogion stadau	Ansicr. Oes dyddiad ar gyfer cyflwyno'r bid?	Anhysbys	Adfer mawndir, ansawdd dŵr a lliniaru llifogydd	Bioamrywiaeth	Dim wedi eu codi



Enw'r prosiect	Corff arweiniol	Cyrff sy'n cefnogi	Cyfnod datblygiad y bid	Ariannu	Testun y prosiect	Llinyn LIFE	Problemau posibl a nodwyd
<b>Prosiect Morwrol</b>	Partneriaeth WEL	NE, diddordeb gan yr YG (Phil Lakin), y Bartneriaeth Forwrol Geltaidd	Cynnar iawn, ansicr, cyflwyno 2017	Anhysbys	Sbwriel yn y môr	Bioamrywiaeth	Dim wedi eu codi
<b>Adfer Ardal Gadwraeth Arbennig y Gwy a'r Wysg</b>	Sefydlaidd y Gwy a'r Wysg	NE, Afonydd Cymru	Hwyr. I'w gyflwyno yn 2016.	Anhysbys	Adfer y Gwy a'r Wysg, yr ardal gadwraeth i gyd	Natur	Os yn sicrhau arian cyfatebol gan ANC, posib adfer yr 8 afon Cymreig
<b>Twyni tywod</b>	Yr YG	NE + ANC, y Weinyddiaeth Amddiffyn, <i>PlantLife</i> , yr YG, PCE	Tebygol. I'w gyflwyno 2016	Anhysbys	Adfer twyni tywod	Natur	Dim wedi eu codi
<b>Adfer tirlun penrhyn Castellmartin</b>	Yr YG	Anhysbys	Anhysbys	Anhysbys	Adfer tirlun a dŵr croyw	Natur	Dim wedi eu codi
<b>Tir comin Abergwesyn</b>	Yr YG	Anhysbys	Anhysbys	Anhysbys	Adfer mawndir a thir pori	Natur	Dim wedi eu codi
<b>Bran goesgoch Llŷn</b>	Yr YG	Anhysbys	Anhysbys	Anhysbys		Natur	Dim wedi eu codi

Prosiect ategol Mawndir Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Prosiect Integredig LIFE
- Ardal Gadwraeth Arbennig corsydd rhyngbarthol Cymru
- Cyforgosydd Ceredigion
- Tair cors mignen: y Migneint, y Berwyn a'r Elenydd

## **Grŵp 2: Rhwystrau i bidiau LIFE o Gymru a sut i'w goresgyn**

*Hwylusydd: Christine Edwards (Adnoddau Naturiol Cymru). Cofnodwr: Amanda Gregory (JNCC)*

Bu'r grŵp yn trafod y rhwystrau all fod i ddatblygu bidiau yng Nghymru a ffyrdd o'u goresgyn. Bu iddo adnabod y rhwystrau a'r atebion posibl canlynol:

### **1. Rhwystrau:**

#### **1.1 Capasiti**

Gwelwyd mai diffyg capasiti oedd y rhwystr mwyaf i ddatblygu bidiau LIFE llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys capasiti o ran amser staff, gwybodaeth dechnegol a chostau'r datblygu.

##### **a) Capasiti - staff**

Ychydig iawn o gyrff/mudiadau sydd â'r gallu i neilltuo amser staff i ddatblygu bid a thalu rhywun i gyflawni eu dyletswyddau yn y cyfamser. A lleiaf i gyd ydi'r corff neu fudiad, y mwyaf i gyd ydi'r problem capasiti. Digon prin yn aml ydi'r wybodaeth dechnegol a'r wybodaeth o broses a gofynion gwneud cais LIFE. Dywedodd ambell i gorff/mudiad eu bod yn gyndyn o ail-drefnu eu staff i bwrpas datblygu bid LIFE oherwydd yr effaith andwyol ar eu gwaith beunyddiol.

##### **b) Capasiti – costau**

Mae cost datblygu bid LIFE yn amrywio o oddeutu £20,000 i £100,000, yn dibynnu ar faint y prosiect. Mae hefyd elfen o risg ynghlwm â'r gwariant gan nad ydi pob bid yn llwyddiannus. Mae'r gost cychwynnol yn cynnwys cost amser staff, cost staff cyflenwi neu contractiwr, cyflogi rheolwr prosiect, arbenigedd swyddog ariannol, ayb. Mae hyn yn gwneud arian yn fater o bwys mawr i'r gwahanol gyrff/mudiadau yn arbennig ar adeg, fel yr un sydd ohoni, o lymder economaidd.

#### **1.2 Risg**

Fel a nodwyd eisoes, mae risg ariannol ynghlwm â datblygu unrhyw bid ar gyfer prosiect LIFE. Bydd y prosiect yn nwylo Partner Arweiniol fydd nid yn unig â'r cyfrifoldeb dros sicrhau cwblhau'r gwaith, ond fydd hefyd ag angen y capasiti ariannol i allu gwarantu cost y prosiect. Mae hwn yn faich na ddyldid ei ddiystyru ac yn un â digon o risg ynghlwm ag o i fod wedi rhwystro datblygu prosiectau yn y gorffennol. Risg arall y cyfeiriwyd ato oedd methiant partneriaid prosiect i gyflawni'r hyn y maen nhw'n cytuno iddo.

#### **1.3 Arian cyfatebol**

Mae sicrhau arian cyfatebol yn fater tyngedfennol. Dydi amserlenni'r gwahanol gyfundrefnau ariannu ddim bob amser (neu, yn wir, fel arfer) yn cyd-fynd, ac mae pob amser risg o lwyddo i sicrhau arian o un ffynhonnell tra'n methu ag un arall. A phe byddai prosiect ag arian cyfatebol yn methu yn ei bid LIFE cyntaf, does dim gwarantu y bydd yr arian cyfatebol ar gael ar gyfer ail bid. Mae sawl bid LIFE o'r DU wedi bod yn llwyddiannus ar yr ail gynnig, felly mae angen sicrhau ymrwymiad tymor hir i roi arian cyfatebol rhag ofn bod angen ail bid LIFE.

#### **1.4 Ymddiriedaeth**

Mae gwahaniaethau yn amcanion, man cychwyn a threfniadaeth cyrff/mudiadau wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth rhwng rhai a allai fod yn bartneriaid. Roedd hwn yn fater a gododd sawl tro, yn arbennig yng nghyd-destun yr angen i bartneriaid prosiect ymddiried yn y partner arweiniol, er enghraifft yng nghyswllt dosbarthu taliadau ariannol. Ar y llaw arall, y partner arweiniol sy'n gwarantu talu costau'r prosiect; mae angen felly iddo ymddiried yn y partneriaid eraill i gyflawni'r hyn y bu iddyn nhw gytuno iddo.

#### **1.5 Gwybodaeth ynglŷn â LIFE**

Mae sawl uned gwahanol gan Lywodraeth Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru yn ymdrin â materion tebyg i'w gilydd, a dydi hi ddim yn amlwg bob amser at bwy mae angen mynd i gael

gwybodaeth a chefnogaeth. Canlyniad hyn oedd bod prosiectau ambell i gorff/mudiad wedi disgyn ar ymyl y ffordd. Mae nifer fawr o ddyddiau, cyfarfodydd a chynadledau sy'n ymdrin ag arian UE ac yn rhoi gwybodaeth am gynllun LIFE yn digwydd y tu allan i Gymru, ac mae newidiadau polisi teithio a thoriadau cyllideb wedi golygu bod mynychu digwyddiadau o'r fath yn anodd neu'n amhosibl i rai cyrff a mudiadau.

## **2. Goresgyn y rhwystrau**

Mae modd i ambell weithred oresgyn mwy nag un rhwystr. Mae *Terrestrial Biodiversity Group* Lloegr a'i is-grwpiau'n enghraifft o ba mor dda y gall asiantaethau llywodraeth, cyrff NGO a chyrrff eraill weithio gyda'i gilydd i drafod blaenoriaethau a datblygu prosiectau. Mae'r grŵp yn fforwm i drafodaeth agored ac i wahanol gyrff a mudiadau ddatblygu'r ymddiriedaeth a'r dealltwriaeth sy'n angenrheidiol i weithio mewn partneriaeth. Gallai grŵp tebyg yng Nghymru helpu delio â rhai o'r rhwystrau a bod yn fodd i symud gwaith prosiect yn ei flaen.

Wrth drafod syniad am brosiect newydd, mae trafod y nodau a'r blaenoriaethau'n gymorth i adnabod partneriaid sydd â'r gallu i weithredu ar gyfer y prosiect. Mae diffinio cylch gorchwyl ac union waith pob partner yn hanfodol i sicrhau eu hymrwymiad i'r prosiect.

Gwelwyd bod cefnogaeth uwch-reolwyr y partneriaid yn hanfodol i lwyddiant prosiect. Mae angen i'r uwch-reolwyr ddeall costau'r prosiect, yr oblygiadau o ran amser staff, y risg, a'r budd sy'n deillio o ymgeisio ar gyfer a rheoli prosiect LIFE.

Mae canoli prosiectau ar bobl a llefydd (canolbwyntio ar wasanaethu ecosystem), ond hefyd eu cysylltu â gwaith graddfa fwy, yn fodd i'w cysylltu â blaenoriaethau a chynlluniau strategol Cymru.

### **2.1 Capasiti**

#### **a) Capasiti – amser staff**

Mae datblygu capasiti o ran staff a gwybodaeth dechnegol yn agwedd hanfodol o gyflwyno bid llwyddiannus. Mae cael rhai sydd wedi llwyddo yn eu bidiau a'u prosiectau i fentora prosiectau eraill yn fodd i ddatblygu capasiti a gallu technegol corff neu fudiad.

Cafwyd cais yn gofyn bod Llywodraeth Cymru neu Adnoddau Naturiol Cymru yn cynorthwyo cyrff NGO llai drwy helpu darparu gweithwyr cyflenwol.

#### **b) Capasiti – costau**

Mae modd rhannu a lliniaru effaith costau datblygu bid LIFE drwy greu partneriaethau a gweithio i gryfder pob partner. Mae angen cefnogaeth yr uwch-reolwyr i hyn er mwyn sicrhau bod gan y rhai sy'n datblygu'r bid yr amser i ganolbwyntio arno ac i fynd ar ôl arbenigedd ariannol a thechnegol.

### **2.2 Risg**

Mae cefnogaeth uwch-reolwyr y partneriaid yn hanfodol o'r dechrau un. Mae'n rhaid i'r uwch-reolwyr fod â dealltwriaeth dda o risg ac o'r budd sydd i'w gael o ymgymryd â phrosiect LIFE. Mae dealltwriaeth o'r prosesau a'r amser sydd ei angen i ddatblygu cais yn hanfodol. Gwelwyd bod cyfarfod o Brif Weithredwyr y partneriaid prosiect yn fodd i sicrhau eu cefnogaeth lawn a lleihau risg.

Mae elfen o risg mewn gweithio mewn partneriaeth. Cyfeirir yn 2.4 isod at werth trafodaeth agored, gwybod bod pob partner yn gweithio tuag at yr un nodau a deilliannau cytunedig, a defnyddio cryfderau pob partner mewn modd briodol, pan y ceisio cynyddu ymrwymiad, meithrin ymddiriedaeth a lleihau risg.

### **2.3 Arian cyfatebol**

Cafwyd dim cynigion ynglŷn â sut i oresgyn problemau arian cyfatebol. Mae sicrhau arian cyfatebol yn broblem i bob corff a mudiad, p'un a oes ganddyn nhw brofiad o LIFE ai peidio. Mae angen gwell dealltwriaeth o le a sut mae cael arian cyfatebol e.e. ydi torf-ariannu'n opsiwn gwerth ei ystyried? Mae

diffyg dealltwriaeth hefyd o sut i ddelio â'r gwahaniaethau yn amserlenni gwahanol ffynonellau arian – mae angen mwy o gefnogaeth ac arweiniad yn hyn o beth.

#### **2.4 Ymddiriedaeth**

Gyda bod arian yn dynn ymhob corff a mudiad mae cydweithio wedi dod yn ofyniad cyffredin. I feithrin ymddiriedaeth mae'n rhaid trafod yn agored a chydweithio i gyflawni'r un deilliannau. Felly, wrth ddatblygu prosiectau mae cytundeb cynnar ar nodau a deilliannau'n hanfodol. Mae trefnu'r gawith yn ôl cryfderau pob corff neu fudiad yn gymorth i sicrhau ymrwymiad pob partner drwy gydol cyfnod datblygu a chynnal y prosiect. Mae tryloywder a dealltwriaeth o anghenion ariannol pob partner yn hanfodol.

#### **2.5 Gwybodaeth ynglŷn â LIFE**

Fel a nodwyd eisoes, mae teithio y tu allan i Gymru'n anodd ond mae cael y wybodaeth ddiweddaraf ar LIFE yn hanfodol. Mae angen trefnu dod â'r wybodaeth i Gymru. Fe allai hynny fod ar ffurf cyfarfodydd neu ddiwrnodau gwybodaeth (tebyg i heddiw), cymryd rhan mewn 'gweminarau' (seminarau ar y we), neu drwy fynediad at wefan cyfredol. Byddai creu cyfeiriad e-bost LIFE gan Lywodraeth Cymru'n helpu sicrhau bod y rhai sy'n datblygu prosiect yn siarad â'r bobl berthnasol. Byddai gwybod lle i gael gwybodaeth perthnasol i Gymru a chysylltiadau â llefydd perthnasol eraill yn y DU yn ddefnyddiol iawn.

#### **Ffyrdd i'r JNCC gefnogi Cymru wrth ddatblygu bidiau LIFE**

Trafodwyd sawl ffordd i'r JNCC helpu a hwyluso datblygu bidiau LIFE o Gymru, yn cynnwys:

- Cynnig barn a chyngor ar y syniad tu ôl i'r bid (drwy edrych ar y nodiadau perthnasol)
- Bod yn hwylusydd gwasanaeth mentora - gyda'r amcan o ddefnyddio rhai a gyflwynodd bid llwyddiannus i fentora unigolion a chyrrff neu fudiadau ar adegau gwahanol y proses o ddatblygu bid LIFE a thu hwnt. Fe allai hynny olygu rhoi cymorth gydag ysgrifennu'r bid, cymorth technegol, cyngor ariannol neu gymorth cyffredinol.
- Adnabod partneriaid posibl – cysylltu â'r rhai sy'n gweithio mewn meysydd tebyg yng Nghymru, gweddill y DU, a thu hwnt (h.y. datblygu partneriaethau Ewropeaidd).
- Darparu gwybodaeth ac arweiniad. Fe allai hynny fod drwy arweiniad ar-lein a rhannu arfer gorau drwy'r wefan, drwy weminarau ar bynciau penodol a thrwy gyfrwng cyfarfodydd.

Bu i bob un o'r cyrrff a mudiadau gytuno bod angen bod â chysylltiadau â sectorau eraill, ac i sicrhau bod y sectorau eraill hynny'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd yn y dyfodol.

#### **Grŵp 3: Cwmpas ac aelodaeth Fforwm LIFE Cymru**

*Hwylusydd: Jessa Battersby. Cofnodwr: Katy Thompson (y ddwy o'r JNCC)*

Bu i drafodaeth Grŵp 3 ganolbwyntio ar y gwaith o sefydlu fforwm LIFE. Amcan y fforwm fyddai denu mwy o arian cronfa Natur a Bioamrywiaeth LIFE at waith amgylcheddol yng Nghymru. Byddai'n uchelgais clodwiw i anelu at gael leiaf tri phrosiect natur a bioamrywiaeth LIFE ar waith yng Nghymru ar y tro, gydag un efallai ar ffurf bid yn cael ei ddatblygu, un ar waith, ac un yn y cyfnod ôl-LIFE lle byddai trafodaeth ar sicrhau parhad ei gyfraniad.

#### **Argymhellir bod cwmpas y grŵp i gynnwys:**

- Bod yn gyfrwng rhannu gwybodaeth ar sut i wella bidiau ac osgoi dyblygu bidiau'n ymdrin â'r un meysydd
- Bod yn fodd hwylus i gael arian ar gyfer gwaith ymarferol
- Blaenori bidiau – gan ddysgu o brofiad Lloegr ym maes datblygu rhestr flaenoriaeth, ond i fod ag agwedd hyblyg o ran y blaenori er mwyn caniatáu a chefnogi syniadau *ad hoc*
- Cytuno i gydweithio wrth drafod blaenoriaethu prosiectau gyda chyrrff ariannu
- Cyflwyno bidiau mewn partneriaeth â chyrrff yn Lloegr a thu hwnt lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ond i sicrhau bod hynny'n cydfynd â fframwaith bolisiau Cymru

- Edrych i'r dyfodol ac adnabod anghenion. Byddai'r grŵp yn gallu cynnig trosolwg strategol a bod yn fodd defnyddiol i ddatblygu capasiti ac ymwybyddiaeth ymhlith yr aelod gyrff a mudiadau drwy rannu'r hyn a ddysgwyd o'u profiadau a'u cyfleoedd. I hyn lwyddo byddai angen gwybodaeth gyllido fanwl, *a chynnwys cyrff, mudiadau ac unigolion allweddol eraill lle bo'u hangen, i gynghori Llysgenhadon Ariannu UE Llywodraeth Cymru ac i ddatblygu perthynas â Swyddfa Arian Ewrop Cymru a Swyddfa Cymru ym Mrwsel.*

Roedd teimlad y dylai bod gan y grŵp gyfrifoldeb diamwys i flaenoriaethu a llunio bidiau LIFE a bod adolygiad o lwyddiant y grŵp i'w gynnal ymhenn dwy flynedd. Trafodwyd hefyd ehangu cylch gorchwyl y grŵp y tu hwnt i LIFE a'i wneud yn grŵp ariannu ar gyfer pob agwedd o'r sector bioamrywiaeth. Serch hynny, roedd teimlad cyffredinol bod angen canolbwyntio ar LIFE am y tro ac i gadw ehangu'r cylch gorchwyl fel mater i'w drafod yn y dyfodol.

### **Aelodaeth**

Roedd y farn gyffredinol am weld y grŵp yn un a oedd mor gynhwysol â phosibl, oedd yn ychwanegu at werth y grwpiau sydd eisoes yn bod yng Nghymru, ac oedd yn canolbwyntio ar dasgau a gweithredu. Gan gadw hynny mewn cof, fe argymhellwyd cyfyngu aelodaeth y grŵp yn bennaf i'r rhai hynny sydd, neu a all fod, â rhan weithredol mewn bid – ond bod cysylltiad cryf yn cael ei gynnal â grwpiau cyllido a pholisi. Byddai angen i'r grŵp drafod holl rychwant polisi'r maes amgylcheddol a gweithio'n fewnol â Llywodraeth Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru er mwyn sicrhau ei ddylanwad ar bolisi. Byddai JNCC, fel Pwynt Cyswllt Prydeinig LIFE, yn gallu cynnig trosolwg lefel DU ac UE a hwyluso cydweithio ar draws y pedair gwlad, gan hwyluso cydweithio lle'n briodol.

Rhoddyd ystyriaeth hefyd i gynnwys grwpiau tirfeddiannol pwysig megis ffermwyr, cwmnïau coedwigaeth a thirfeddianwyr cefn gwlad, ac i grwpiau eraill megis cyrff ariannu, cyrff NGO a grwpiau ecosystemau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – fyddai i gyd yn gallu cynnig gwahanol raddau o werth ychwanegol i'r Fforwm. Roedd pobl o'r farn y byddai ystod eang o gyrff â pherchnogaeth ar y Fforwm yn fuddiol yn ei ddyddiau cynnar, fel bod pawb yn teimlo ei fod wedi ei gynnwys. Un ffordd posibl i symud ymlaen fyddai trefnu grŵp craidd i drafod materion strategol, a nifer o weithgoreu bychain i drafod bidiau ar gyfer rhywogaethau neu gynefinoedd penodol.

Fe ystyriwyd bod y Fforwm yn gyfrwng gwerthfawr i adeiladu perthynas rhwng gwahanol rhanddeiliaid, ac mai cyfarfodydd wyneb yn wyneb fyddai'r ffordd orau i gynnal y trafodaethau agored angenrheidiol. Byddai cofnodion y cyfarfodydd i'w cyhoeddi ar wefan Cyswllt Cenedlaethol LIFE. Yn sgil y trafodaeth fe ranwyd aelodaeth y Fforwm yn aelodaeth graidd, yn rhai oedd i dderbyn gwybodaeth amdano, a rhai oedd i'w gwahodd i fynychu'n achlysurol - a hynny fel a ganlyn:

### **Aelodaeth graidd:**

- Llywodraeth Cymru – i ddarparu fframwaith polisi, cysylltiadau â ffynonellau arian a grwpiau polisi pwysig, ynghyd â chyswllt â gwybodaeth polisi'r UE e.e. drwy Swyddfa Cymru ym Mrwsel.
- Adnoddau Naturiol Cymru – i ddarparu arbenigedd ar faterion technegol ac amgylcheddol ynghyd â chysylltiadau ag asiantaethau a chronfeydd arian Cymreig eraill.
- Cyrff NGO – Bu i'r grŵp feddwl y byddai Cyswllt Amgylchedd Cymru'n cynrychioli'r cyrff NGO llai, lle byddai rhai mwy e.e. yr RSPB a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn anfon eu cynrychiolwyr eu hunain.

### **Partneriaid arweiniol ar gyfer prosiectau sydd ar waith neu wrth ddatblygu bidiau:**

- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Y Parciau Cenedlaethol
- Yr Ymddiriedolaethau Afon
- Pwynt Cyswllt Cenedlaethol LIFE y DU

### **Y rhai a fyddai i dderbyn gwybodaeth:**

- Yr *England Terrestrial Biodiversity Group* a'i gymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon

- Grŵp Ariannu rhyng-asiantaethol yr UE (grŵp sy'n cyfarfod pob chwarter ac yn cynnwys arbenigwyr ariannu o bob un o gyrff statudol gwarchod natur y DU)

### **I'w cynnwys yn ôl yr angen i bwrpas rhannu gwybodaeth:**

- Tirfeddianwyr cefn gwlad
- Ffermwyr
- Cwmnïau coedwigaeth
- Cwmnïau dŵr
- Cyrff ariannu e.e. Cronfa Treftadaeth y Loteri, busnesau, cyrff ichyd, cynghorau cyllido ayb.
- Cadeiryddion grwpiau ecosystem, allai rywdro arwain gweithgorau

### **Y camau nesaf:**

- I benderfynu ar Amodau Gorchwyl y Fforwm LIFE Strategol ac a oes angen gweithgorau ychwanegol
- Cytuno dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf

### **Sesiwn y prynhawn: Gweithdy Dechrau Prosiect Mawndir:**

Yn ystod sesiwn y prynhawn fe rannwyd pawb unwaith eto'n dri grŵp trafod. Y pynciau dan sylw oedd: cynnwys prosiect mawndir; rhanddeiliaid a phartneriaid posibl; cyllido a chyd-ariannu. Er mwyn osgoi dyblygu mae'r pwyntiau a godwyd wedi eu nodi fel a ganlyn: Grŵp 1 – cynnwys prosiect mawndir; Grŵp 2 – rhanddeiliaid a phartneriaid; Grŵp 3 – cyllido a chyd-ariannu.

#### **Grŵp 1: Cynnwys prosiect mawndir**

*Hwylusydd: Colette Price (Adnoddau Naturiol Cymru). Cofnodwr: Katy Thompson (JNCC).*

Bu i'r grŵp drafod cynnwys posibl prosiect mawndir ynghyd â rhanddeiliaid, partneriaid a chyd-arianwyr posibl.

Ystyriwyd y byddai angen i brosiect mawndir gynnwys:

- Plannu migwyn er mwyn annog ffurfio mawn. Mwy o reoli prysgwydd, tynnu coed conwydd a chyflwyno planhigion o rywogaethau eraill. Cyfeiriwyd hefyd at ailgyflwyno'r afanc ochr yn ochr ag arferion pori traddodiadol
- Gwell rheolaeth ar rug a mwy ohono
- Cau ffosydd a rheoli erydiad
- Rheoli dŵr er mwyn adfer natur hydrolegol blaenorol y mawndir
- Adolygu rheoli mynediad a mynediad i lwybrau. Addysgu beicwyr fel eu bod yn ymwybodol o oblygiadau amgylcheddol eu hamddena
- Rheoli tân drwy addysg gymunedol
- Codi ymwybyddiaeth cymunedau cefn gwlad o bwysigrwydd mawndir yng nghyd-destun newid hinsawdd – fe allai hyn fod yn destun prosiect dan bennawd Rheolaeth a Gwybodaeth Hinsawdd LIFE
- Atafaelu carbon (blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru), cynllun LULUCF (*land use, land-use change, forestry*), atal allyriadau carbon, cyrraedd targedau lleihau carbon 2050 Cymru
- Addasu asidrwydd a sefydlogi llifeiriant e.e. prosiect y Berwyn a'r Migneint
- Prosiect LIFE Ardal Gadwraeth Arbennig Irfon, yn cynnwys mawndir
- Arbed dŵr – 1 miliwn megalitr y dydd
- Sefydlogi llifeiriant
- Tynnu coed – plannu yn eu lle
- Budd bioamrywiaethol
- Pori – pa faint o bori
- Cymell tirfeddianwyr i barhau â'r gwaith
- Peiriannau

## **Grŵp 2: Rhanddeiliaid a phartneriaid posibl**

*Hwylusydd: Christine Edwards (Adnoddau Naturiol Cymru). Cofnodwr: Amanda Gregory (JNCC)*

Cyn ymgymryd ag unrhyw brosiect mae dadansoddi'r rhestr rhanddeiliaid yn hanfodol; mae'n bwysig gwybod pwy ydi'r rhanddeiliaid ac adnabod yr hyn allai achosi anghydweld. Mae dealltwriaeth o'r fath yn gymorth i drefnu cyfarfodydd a gweithdai ac hefyd i ddiffinio terfynau'r drafodaeth.

Bu i'r grŵp adnabod y canlynol fel rhanddeiliaid posibl:

- Cymunedau
- Cyngorau Cymuned
- Awdurdodau Lleol
- Llywodraeth Cymru
- Adnoddau Naturiol Cymru
- CADW
- Rheolwyr tir
- Yr undebau amaethyddol a chlybiau Ffermwyr Ifanc
- Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CLA)
- Prifysgolion
- Cyngorau ymchwil
- Cwmnïau coedwigaeth
- Clybiau e.e. pysgota
- Cwmnïau dŵr, ynni, ffermydd gwynt
- Ymddiriedolaeth Cwm Elan
- Cwmnïau yswiriant
- Yr RSPB
- Yr Ymddiriedolaethau Bywyd gwyllt
- *Plantlife*
- *Y Game & Wildlife Trust*
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Y Parciau Cenedlaethol
- Adraloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Rhanddeiliaid y farchnad garbon
- Ymddiriedolaethau ac elusennau newid hinsawdd
- Tirfeddianwyr, y Weinyddiaeth Amddiffyn, ffermwyr
- Y cyfryngau – er mwyn hysbysu gwerth mawn (fe nodwyd yr angen i'w cynnwys o'r dechrau)

## **Partneriaid prosiect**

Cafwyd trafodaeth ar beth yn union oedd natur partner addas a'r hyn y dylai fod yn ei gyfrannu i brosiect. Mae cwmpas a maint prosiect yn dibynnu ar ei safle.

Yng nghyfnod datblgyu'r prosiect mae angen mewnbwn cymaint ag sy'n bosibl o'r rhanddeiliaid. Bu i Chris Dean dynnu sylw at y fframwaith resymeg - erfyn rhagorol at ein pwrpas lle mae pob partner posibl yn cytuno ar nodau a deilliannau'r prosiect. Mae'n broses sy'n cyfeirio gweithgareddau at nod y prosiect. Mae'n erfyn sy'n diffinio'n eglur y gweithgareddau hanfodol a'u cyswllt â phartneriaid perthnasol sydd â'r gallu i'w gweithredu.

## **Partner arweiniol**

Mae angen i'r partner arweiniol fod â'r arbenigedd a'r capasiti sydd eu hangen i reoli'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys gwarantu costau'r bid os bydd partner yn methu â chwblhau'r hyn a addawodd, neu

os ydi arianwr yn syrthio'n brin. Roedd y grŵp yn teimlo nad dim ond asiantaeth o'r Llywodraeth neu gorff NGO mawr fyddai'n gallu cynnig gwarant o'r fath. Yn hynny o beth mae'n ymddangos y bydd Adnoddau Naturiol Cymru a'r RSPB yn bartneriaid arweiniol nifer fawr o'r bidiau.

### **Grŵp 3: Ariannu a chyd-ariannu**

*Hwylusydd: Nick Thomas (Adnoddau Naturiol Cymru). Cofnodwr: Jessica Magnus (JNCC)*

Mae cael hyd i arian cyfatebol yn gallu bod yn gur pen. Bu i'r gweithdy adnabod y ffynonellau arian a chyd-arianwyr canlynol:

- Llywodraeth Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru
- Cwmnïau dŵr, ffermydd gwynt
- Cyrff NGO yn cynnwys ymddriedolaethau afon ac ymddiriedolaethau cenedlaethol
- Buddsoddwyr dyngarol
- Cronfeydd tirlenwi a chwarel
- Torf-ariannu drwy ewyllysiau, rhoddion dyngarol, cwmnïau cyfarpar awyr agored, beicwyr yn gwneud iawn am eu difrod
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Y Parciau Cenedlaethol
- Yr RSPB
- Adnoddau Naturiol Cymru
- Cronfa'r Loteri Treftadaeth
- Ymddiriedolaethau ac elusennau newid hinsawdd
- Cwmnïau dŵr e.e. Dŵr Cymru
- Treth tirlenwi
- Ewyllysiau
- Cwmnïau yswiriant

Soniwyd hefyd am yr angen i gydgordio'r gwaith â'r Côd Mawndir newydd, sef dull arloesol i alluogi busnesau i fuddsoddi mewn mawndir, gan ddwyn i ystyriaeth cyfraniad gwerthfawr ac amrywiol hwnnw i les y ddynoliaeth.

### **Atodiad 2: Y cyflwyniadau**

Mae'r cyflwyniadau i gyd i'w cael o <http://jncc.defra.gov.uk/page-7108> ar wefan *WalesLIFE*.